*Cofnodion cyfarfod **CYNGOR TREF RHUTHUN***
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun, 21 Mehefin 2021 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones (Dirprwy Faer), Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Christine Ellis, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ethan Jones, Ian Lewney, Jabez Andrew Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn. Cynghorwyr Sir Bobby Feeley ac Emrys Wynne.

36. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

37. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

38. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd a ganlyn:

Is-bwyllgorau Adnoddau Dynol a gwaith yn gysylltiedig â phenodi Clerc y Dref
Pencampwriaethau Iau Sirol Gogledd Cymru yng Nghlwb Tenis Rhuthun
Cyfarfod gyda Stuart Evans, Caplan y Maer ynglŷn â'r Gwasanaeth Dinesig a'r paratoadau.
Wythnos Gwiroddolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych – cyfarfod
Dathlu Gwirfoddolwyr Sir Ddinbych – Ymwybyddiaeth o Ddementia a Gwirfoddolwyr a'r ymateb i Covid 19
Goruchwylio yn yr Arddangosfa Gelf yn yr Hen Lŷs
Cyfarfod Blynyddol Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun
Cyfarfod partnerieth Cyrchfan Sir Ddinbych
Eglwys a Mynwent Agored Sant Pedr
Cysylltu â rhai a wnaeth gais i'r Gronfa Cymorth Llifogydd
Cyswllt cyntaf ag amrywiol sefydliadau/unigolion ynglŷn â phrosiec plannu coed y Maer
Is-bwyllgor yr Hen Lys

39. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng Menna Jones (Dirprwy Faer)	30 /5 Gwahoddwyd i agor y Farchnad Crefftwyr 30/05 prynhawn – sesiwn yn yr Hen Lys 10/6 Sesiwn yn y Banc Bwyd
Cyng Stephen Beach	Ysgol Stryd y Rhos – cyfarfod Llywodraethwyr llawn a phwyllgor Adeiladau a Chyllid
Cyng. Jim Bryan	Yr Hen Lys Gŵyl Rhuthun Prosiect cloc y dref Y senotaff Creu rhestr fer ar gyfer recriwtio
Cyng Christine Ellis	
Cyng Gavin Harris	18/05/21 Cyfarfod Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych 19/05/21 Cyfarfod ynglŷn â'r felodrom gyda Matt Cosgrove a Sara

	Green 30/05/21 Gwirfoddoli yn yr Hen Lys 06/06/21 Gwirfoddoli yn yr Hen Lys 11/06/21 Is-bwyllgor Adnoddau Dynol 13/06/21 Gwirfoddoli yn yr Hen Lys
Cyng Ken Hawkins	Dim i'w nodi.
Cyng John Wynne Hughes	
Cyng Ian Lewney	
Cyng Jabez Oakes	
Cyng Robert Owen-Ellis	5 sesiwn ym Manc Bwyd Rhuthun
Cllr. Anne Roberts	10/05 Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Rhuthun drwy Zoom 12/05 Cyfarfod y Gronfa Cymorth Llifogydd drwy Zoom 18/05 Cyfarfod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol drwy Zoom 19/05 Cyfarfod Ruthin Forward 20/05 Cyfarfod ynglŷn â thŵr y cloc yn yr Hen Lys 29/05 Arddangosfa Gelf yn yr Hen Lys 01/06 Cyfarfod yr Hen Lys drwy Zoom 02/06 Stori Rhuthun – Castell Rhuthun 04/06 Arddangosfa Gelf – yr Hen Lys 10/06 Cyfarfod Pwyllgor Cymdeithas Ddinesesig Rhuthun a'r cylch drwy Zoom 11/06 Arddangosfa Gelf yr Hen Lys 11/06 Is-bwyllgor Adnoddau Dynol – creu rhestr fer 15/06 Cyfarfod yr Hen Lys drwy Zoom 18/06 Cyfweliadau ar gyfer swydd Clerc y Dref
Cyng Mike van der Eijk	
Cyng Ifan Wyn	Dim i'w nodi.

40. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Darparodd y Cyng Emrys Wynne adroddiad ysgrifenedig:

Cyfarfodydd ers 17 Mai.

Cyfarfod Blynyddol Cyngor Sir Ddinbych.

Cronfa Codi'r Gwastad. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gobeithio denu arian ychwanegol i wella ein ffyrdd, gan roi sylw arbennig i dyllau.

Pwyllgorau Craffu.

Grwpiau Herio Gwasanaethau.

Grŵp Cynllunio Strategol.

Cabinet. Bobby a Huw fel aelodau o'r Cabinet ac Emrys fel aelod o'r Cyngor.

Pwyllgor Cynllunio

Fel aelodau o'r Cabinet, bydd Bobby a Huw wedi bod mewn cyfarfodydd ychwanegol yn ymweud â'u portffolios.

Cynhaliwyd cyfarfod gyda thrigolion Bryn Rhydd i drafod cynnal a chadw'r llain o dir i alluguogi'r preswylwyr i barhau i'w ddefnyddio ar gyfer hamddena. Mae'r gwair ar y llain hwn o dir bellach wedi'i dorri.

Llifogydd 20 Ionawr 2021. Mae llythyr gan y tri Aelod lleol wedi'i ddosbarthu i drigolion rhan isaf Heol Clwyd, rhannau o Stryd Mwrog, Borthyn a Heol y Parc.

Roedd y llythyr yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr am y gwaith pellach

arfaethedig i amddiffyn rhag llifogydd rhwng Cae Ddol ac ardal Stryd y Felin.
Mae'r broses o benodi Prif Weithredwr newydd i'r Sir yn parhau.
Roedd y tri Aelod lleol yn parhau i ymateb i faterion a gyfeiriwyd atom n i gan drigolion y dref yn ddyddiol ac yn wythnosol. Yn ogystal â phroblemau rheolaidd fel cyflwr y llwybrau cerdded, sbwriel, baw cŵn a thyllau yn y ffyrdd, mae tri mater o bryder cyffredin.

- Cŵn yn amharu ar fywyd gwyll ger y llyn yng Nghae Ddôl.
- Yr heriau sy'n wynebu llawer o fusnesau yn y dref, yn enwedig rhannau o Heol Clwyd.
- Y cynnydd diweddar yn yr achosion o Covid-19 yn Nyffryn Clwyd.

Mae galw parhaus am lwybrau beicio diogel sy'n cysylltu Rhuthun â chymunedau lleol. Mae trafodaethau gyda swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y galw hwn yn parhau.

Gofynnodd y Cyng Anne Roberts am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran mynd i'r afael â chŵn oddi ar eu tennyn, yn amharu ar fywyd gwyllt ac yn rhedeg yn rhydd o amgylch yr offer chwarae ym mharc Cae Ddôl. Rhoddodd y Cyng Emrys Wynne y wybodaeth ddiweddaraf am y posibirwydd o neilltuo parth yn y parc i greu ardal ar gyfer cŵn oddi ar eu tennyn, rhwng yr afon a waliau'r castell. Mynegwyd pryderon am 'blismona' hyn. Bydd llythyr yn cael ei anfon gan y Cyngor Tref ynglŷn â'r cwynion y mae'r Cynghorwyr Tref wedi'u cael am y mater hwn.

41. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

42. MATERION YN CODI

Nid oedd materion yn codi

43. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Diolchodd y Cyng Menna Jones, y Dirprwy Faer i'r Cyng Gavin Harris am fod yn gadeirydd y Pwyllgor Amwynderau am y ddwy flynedd ddiwethaf a chroesawodd y Cyng Stephen Beach.
Trafododd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021.*

44. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021.*

45. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

Trafododd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhalilwyd ar 1 Mehefin 2021.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2021.*

46. SEDD WAG AR GYNGOR TREF RHUTHUN

Cydnabu'r aelodau'r rhybudd o fwriad y Cyng John Wynne Hughes i ymddiswyddo.
Gofynnodd y Cyng Ken Hawkins am i'r cais hwn gael ei ailystyried, ond dywedodd y Maer nad yw'n bosibl ailystyried ymddiswyddiad. Diolchodd y Cyng Emrys Wynne i'r Cyng John Wynne Hughes. Dywedodd y Cyng Hughes ei fod yn falch o fod wedi bod yn rhan o Gyngor Tref Rhuthun.
PENDERFYNWYD*: rhoi gwybod i Wasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Ddinbych ac arddangos yr Hysbysiad ynghylch Sedd Wag.*

47. COFEB RYFEL RHUTHUN

Trafododd yr aelodau fabwysiadu'r Gofeb Ryfel ar Ffordd Wynnstay, gan nad oes yr un sefydliad yn gyfrifol amdani ar hyn o bryd er gwaethaf ei phwysigrwydd i'r gymuned leol. Cynigiodd y Cyng Gavin Harris y cynnig ac eiliodd y Cyng Anne Roberts. Roedd pob cynghorydd o blaid y cynnig.

***PENDERFYNWYD**: y bydd Cyngor Tref Rhuthun yn mabwysiadu'r Gofeb Ryfel.*

48. PROSIECT PLANNU COED Y MAER

Cafodd yr aelodau wybodaeth am brosiect plannu coed y Maer dros y flwyddyn nesaf.

***PENDERFYNWYD**:* Cadarnhawyd fod cyllid ar gael gan Gyngor Tref Rhuthun i blannu/cynnal a chadw coed. Cytunwyd y gellid gwneud cais i gronfeydd allanol ar ran y Cyngor am grantiau i gynorthwyo gyda'r prosiect hwn.

49. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y GRONFA CYMORTH LLIFOGYDD

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am Gronfa Cymorth Llifogydd Rhuthun. Codwyd £4900 ac fe'i dosbarthwyd i ymgeiswyr a ddarparodd eu manylion banc. Roedd grŵp y Gronfa Cymorth Llifogydd yn bwriadu newid enw a diben y cyfrif yn 'Gronfa Argyfwng Rhuthun' er mwyn sicrhau cymorth ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng drwy'r dref, ac yn cael ei rheoli gan bwyllgor o gynrychiolwyr o'r gymuned.

***PENDERFYNWYD**: Roedd yr aelodau'n cytuno i newid diben ac enw'r gronfa.*

50. STATWS TREF SY'N CROESAWU BYSIAU MOETHUS

Mae'r aelodau'n bryderus bod y statws Tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus wedi'i ddyfarnu dros ddwy flynedd yn ôl ond na chafwyd dim diweddariad gan y corff dyfarnu ynghylch estyniad. Hefyd, ni neilltuwyd lle ar Sgwâr Sant Pedr byth fel man gollwng penodol ar gyfer bysiau moethus. Dywedodd y Cyng Harris fod Cyngor Sir Ddinbych yn hapus i fwrw ymlaen â'r pwynt gollwng teithwyr, ond ni chynhaliwyd dim cyfarfodydd yn ystod y 18 mis diwethaf a gofynnodd i'r Cynghorwyr Sir fynd ar drywydd y trafodaethau a'r camau gweithredu hyn. Cynigiodd y Cynghorydd Sir, Bobby Feeley ganfod beth sy'n digwydd o ran y cais hwn.

***PENDERFYNWYD**: Bydd y Dirprwy Glecr yn parhau i geisio cysylltu â'r corff dyrarnu a bydd y Cyng Feeley yn canfod beth sy'n digwydd o ran y man gollwng arfaethedig ar gyfer bysiau moethus ar Sgwâr Sant Pedr.*

51. DINAS DIWYLLIANT 2025

Tynnwyd y cais i drafod yr eitem hon yn ôl.

52. TÎM TREF RHUTHUN – WiFi Rhuthun

Mae'r system WiFi yng nghanol tref Rhuthun i gael ei datgomisiynu, ac mae costau eithriadol ynghlwm â hyn. Roedd Tîm Tref Rhuthun wedi gwneud cais am liniadur a fenthycwyd i Gyngor Tref Rhuthun yn ystod y pandemig, i'w brynu neu ei ddychwelyd i Dîm y Dref.

***PENDERFYNWYD**: dychwelyd y gliniadur i David Snape ar ôl dileu unrhyw ddeunydd oddi ar yr offer.*

53. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mai 2021.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Mai 2021.*

54. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo taliad yr eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Cymorth Cynllunio Cymru	I'r Cynghorwyr Heather Williams a Gavin Harris fynd i gynhadledd 'Adfywio Trefi a Chymunedau Cymru ar ôl Covid-19'.		£100.00
OB	JB Platform Hire Ltd	Llogi 'cherry picker' gyda gyrrwr i osod cynwysyddion blodau ar y pyst.		£384.00
OB	Un Llais Cymru	Hyfforddiant i gynghorwyr – 'Y Cynghorydd Modiwl 2'		£30.00
OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau cyfrifeg a chyflogres a thanysgrifiad Sage – mis Ebrill	*	£240.00
OB	Cwmi IT Williams Cyf	Cludo cynwysyddion blodau o Blanhigion Glyndwr i Rhuthun		£528.00
OB	Cambrian Woodland Services	Cyflenwi a phlannu coeden ar gyfer yr Helfa Gelf a chyflenwi a gosod system ddyfrio 'root rain'		£434.40
OB	Llanfwrog CIC	Gwasanaethau torri gwair – mis Mehefin 2021		£554.76
OB	Lleol.cymru	Hysbyseb recriwtio		£180.00
CQ	R John Edwards	Gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig		£74.25
OB	Dave Snape	Ad-daliad am danysgrifiad Office 365 Ionawr a Chwefror 2021		£37.92
OB	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu mis Mai a Mehefin 2021		£180.00
OB	Anne Roberts	Ad-daliad am dalu am hysbyseb recriwtio		£54.75
OB	R. John Edwards	Gwasanaethau cyfieithu – papurau ar gyfer cyfarfod CTRh 21 06 21		£112.50
OB	Standard Signs & Traffic Systems Ltd	Sticeri feinyl newydd ar gyfer arwyddbyst		£168.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * uchod yn cynnwys TAW o £43.16 y gellir ei adfer)

O gyfrif Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun:

	BT Business	Ffôn Cwmwl a gwasanaeth band eang	*	£67.19

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd fod y drafodaeth ynghylch yr eitemau canlynol yn cael ei chynnal yn breifat, oherwydd y tebygrwydd o ddatgleu gwybodaeth sensitif. Penderfynwyd ar hyn a daethpwyd â'r gwasanaeth gwe-ddarlledu i ben a gadawodd y Cynghorwyr Sir, y cyhoedd a'r wasg y cyfarfod.

55. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RECRIWTIO AR GYFER SWYDD CLERC Y DREF

Rhoddwyd dau ymgeisydd ar y rhestr fer a chafodd y ddau gyfweliad. Gwnaeth y Pwyllgor Adnoddau Dynol argymhelliad, yn amodol ar dyst-lythyrau, bod y swydd yn cael ei chynnig i Sian Clark.

PENDERFYNWYD*: cynnig swydd Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol i Sian Clark.*

56. CAIS ARCHWILIO CYMRU

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gais gan Archwilio Cymru yn ymwneud

â chaffael yr Hen Lys. Roedd y wybodaeth bellach wedi'i chasglu a'i hanfon i'r Swyddfa Archwilio.

***PENDERFYNWYD**: Bydd y Dirprwy Glerc yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cyfathrebu ag Archwilio Cymru.*

57. COFRESTRIAD TAW

Cafodd yr Aelodau adroddiad cyngor TAW i'w ystyried.

***PENDERFYNWYD**: Yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, Cyng Harris a'r Dirprwy Glerc i gyfarfod Ffion Hampson o Hill & Roberts i gadarnhau statws/cofrestriad TAW Cyngor Tref Rhuthun.*

58. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau y cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 12 Gorffennaf 2021 am 7pm.*